Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Y Borth
Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5DS

08/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Y Borth yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Lleihau'r defnydd o daflenni gwaith parod er mwyn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach, yn enwedig y rhai mwy abl

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer gwella medrau ysgrifennu disgyblion, gan gynnwys cynnig cyfleoedd bwriadus iddynt gofnodi a chyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol.
- Mae athrawon yn cydweithio'n fwriadus i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu drwy gyfres o gamau bach, sy'n cefnogi disgyblion i ddeall prif nodweddion ystod o ffurfiau ysgrifennu. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gynyddol hyderus wrth ysgrifennu i wahanol ddibenion ar draws y meysydd dysgu.
- Mae disgyblion yn defnyddio'r  waliau gweithio yn fwriadus i gefnogi datblygiad eu medrau ysgrifennu. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o eirfa allweddol o fewn eu themâu. Maent yn cyfeirio at y deunydd hwn yn bwrpasol wrth fireinio ac ehangu eu gwaith ysgrifenedig.
- Lle mae'r arferion gorau, mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o feddalwedd digidol er mwyn modelu ffurfiau ysgrifennu ac i gynnig adborth er mwyn symud y dysgu yn ei flaen. Drwy hyn, mae gan ddisgyblion, yn enwedig y rhai

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

mwy abl, ddealltwriaeth dda o'r hyn maent yn ei gyflawni yn effeithiol a sut i wella eu gwaith ymhellach.
- Dros amser, mae athrawon wedi lleihau'r defnydd o daflenni gwaith parod. Erbyn hyn, maent yn annog y disgyblion i wneud dewisiadau am sut i gyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau ysgrifennu'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol.
- Mae arweinwyr yn cydnabod mai'r cam nesaf yw i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

### Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut y maent yn cyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith

- Trwy gydweithio effeithiol, mae arweinwyr a staff wedi creu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cynllun clir yn ei le sy'n seiliedig ar gysoni'r arferion gorau ar draws yr ysgol.
- Mae'r athrawon yn arddel disgwyliadau uchel ac yn annog y disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Lle mae'r addysgu ar ei orau, maent yn hwyluso'r dysgu yn effeithiol gan annog y disgyblion i feddwl a gwneud dewisiadau'n gynyddol annibynnol.
- Yn nosbarthiadau ieuengaf yr ysgol, mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gydweithio o fewn eu hardaloedd dysgu. Mae'r disgyblion yn datblygu eu hyder a'u medrau meddwl yn llwyddiannus drwy wneud dewisiadau am sut i ddehongli'r dysgu o fewn yr ardaloedd a sut i gyflwyno eu gwaith.
- Mae'r disgyblion hynaf yn cael cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu ystod o fedrau yn effeithiol drwy gydweithio â'i gilydd ar draws ystod o weithgareddau dysgu. Maent yn dewis heriau sy'n briodol iddynt ac yn ystyried beth sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni eu gwaith hyd orau eu gallu. Mae staff yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n ennyn y disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl yn annibynnol.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddefnyddio ystod dda o adnoddau ac offer i gyflwyno eu gwaith mewn amryw ffordd. Mae hyn yn effeithiol wrth gefnogi disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith.
- Ar y cyfan, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr argymhelliad. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i barhau i gysoni'r arferion gorau ar draws yr ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602175

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol